

Simon Jones  
Director, Economic Infrastructure  
Department for Economy and Transport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay AS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

1 Chwefror 2021

Annwyl Gadeirydd

## MAES AWYR CAERDYDD

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr at Andrew Slade. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar Faes Awyr Caerdydd gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y buom yn bresennol ynddo ar 16 Tachwedd 2020, gwnaethom ymrwymo i ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth am sut y rheolir y llog ar y benthyciadau masnachol, ynghyd â chanlyniad penodi Cadeirydd newydd Holdco. Rwyf wedi ymdrin â'r uchod a phob un o'r pwyntiau a godwyd yn eich llythyr isod.

### Cadeirydd a Phersonel y Maes Awyr

Rwy'n cydnabod bod amseriad y newidiadau i'r tîm gweithredol ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf (CIAL) yn 2020 yn anffodus, yn enwedig o ystyried yr heriau enfawr y mae'r Maes Awyr wedi bod yn eu hwynebu ers mis Mawrth o ganlyniad i effeithiau parhaus COVID-19. Fel y nodwyd, roedd amseriad penodi'r Cadeirydd newydd, Wayne Harvey, y tu hwnt i'n rheolaeth, ac roeddem yn ddiolchgar iawn i Roger Lewis am gytuno i ymestyn ei amser yn y swydd er mwyn sicrhau cysondeb nes y gallai Wayne ddechrau yn ei swydd newydd. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid yn chwilio am swydd arall, ond cyflawnodd ei rwymedigaethau cytundebol gyda CIAL – gan gynnwys unrhyw gyfnod o rybudd. Cytunodd HoldCo i ryddhau'r Prif Swyddog Gweithredol ar y pryd (Deb Barber) – penderfyniad na chafodd ei wneud yn ysgafn, ond un a oedd yn sicrhau'r flaenoriaeth sydd ei hangen i gynnal tîm arweinyddiaeth brwd, uchel ei ansawdd a chanddo ffocws, yn ystod yr amser mwyaf anodd yn hanes y Maes Awyr, ers ei gaffael yn 2013. Roedd yn hanfodol ein bod yn parhau i fod â strwythur arweinyddiaeth clir, dibynadwy a chydabyddedig ar gyfer y busnes a'i weithwyr, ac rwy'n falch iawn o berfformiad Spencer Birns fel Prif Swyddog Gweithredol dros dro hyd yma. Bydd newidiadau i fwrdd CIAL yn y dyfodol yn parhau i gael eu hadolygu gan HoldCo a bydd unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn raddol, lle bo modd, er mwyn parhau â busnes fel arfer.



BUDDSODDWR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 061 5691  
[Simon.jones@gov.wales](mailto:Simon.jones@gov.wales)  
Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

## Cadeirydd Holdco

Ymddiswyddais yn swyddogol fel Cyfarwyddwr a Chadeirydd Holdco ar 30 Tachwedd 2020. Nodwyd Jason Thomas – Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru fel ymgeisydd posibl am y swydd, a chynghorwyd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i ddechrau'r broses o benodi Jason yn Gyfarwyddwr dros dro yn ffurfiol. Cytunwyd ar y cyngor hwn ac mae HoldCo wrthi'n cwblhau'r trefniadau gweinyddol i benodi Jason yn Gyfarwyddwr ac yna byddant yn penderfynu ar y Cadeirydd. Penodiad interim yw hwn nes bod gennym eglurder ynghylch y cyfeiriad ar gyfer Maes Awyr Caerdydd yn y dyfodol. Pan gytunir ar hwnnw byddwn yn cynnal adolygiad ffurfiol o drefniadau presennol HoldCo

## Benthyciadau

Rydym yn deall pryderon y Pwyllgor ynghylch y dulliau adrodd rhwng CIAL a Llywodraeth Cymru ynghylch pa fenthyciadau sydd wedi cael eu rhoi i'r Maes Awyr ers ei gaffael, a'u gwerthoedd. At ddibenion tryloywder, byddaf yn ymrwymo i gyhoeddi gwerth y benthyciadau a roddwyd i'r Maes Awyr ar wefan Llywodraeth Cymru, ond ni fyddaf yn gallu rhoi unrhyw fanylion y tu ôl i'r benthyciadau am resymau sensitifwydd masnachol.

Cyfanswm y benthyciad y cytunwyd arno ar 27 Medi 2019, a gafodd ei gyhoeddi ar 21 Hydref 2019, yw £71.59 miliwn.

Cyfanswm y dyled a oedd ar ôl ar adeg gweithredu'r benthyciad y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru ar 27 Medi 2019 oedd £43,599,174. Mae dadansoddiad o'r dyled hwn isod:

Swm y cyfalaf, wedi'i dynnu i lawr mewn cyfrannau dros gyfnod o amser:	£38,200,000
Llog wedi'i Gronni, wedi'i ychwanegu at y dyled bob mis:	£5,399,174
Cyfanswm balans y benthyciad ar y dyddiad cwblhau:	£43,599,174
Dyled	

Mae llog yn parhau i Gronni a bydd yn cael ei ychwanegu at falans y dyled bob mis, am 72 mis yn dilyn y dyddiad cwblhau.

Mae'r benthyciad y cytunwyd arno ym mis Medi 2019 hefyd yn cynnwys £21.2 miliwn o "arian newydd" ac opsiwn ar gyfer £6.8 miliwn arall o "arian newydd" sy'n destun proses Diwydrwydd Dyladwy Ariannol arall a Chymeradwyaeth Weinidogol.

Mae £16.4 miliwn wedi cael ei dalu o'r cyfleuster benthyciadau y cytunwyd arno ym mis Medi 2019, sy'n golygu mai cyfanswm gwirioneddol y taliadau a dynnwyd i lawr gan Faes Awyr Caerdydd hyd yma yw £54.6 miliwn. Mae'r benthyciad i gael ei ad-dalu dros 19 mlynedd, gyda'r taliad cyntaf yn cael ei wneud ar 31 Mawrth 2026. Y dyddiad ar gyfer yr ad-daliad terfynol yw 31 Mawrth 2044.

Cyfrifir llog ar y benthyciad rhwng Gweinidogion Cymru a CIAL ar y balans dyddiol sydd ar ôl, ac mae'n cael ei ychwanegu at y balans bob mis. Ar gyfer y benthyciad presennol, mae'r trefniant hwn ar waith am 72 mis ar ôl tynnu'r benthyciad i lawr ym mis Medi 2019.

Y cymorth ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer Maes Awyr Caerdydd oedd benthyciad brys ar wahân gwerth £4.8 miliwn i helpu'r Maes Awyr i ymdopi â'r pandemig.

Nid ydym mewn sefyllfa i roi unrhyw fanylion ynglŷn â chyllid ar gyfer Maes Awyr Caerdydd yn y dyfodol ar hyn o bryd. Mae swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda Bwrdd Gweithredol CIAL i werthuso effaith pandemig COVID-19 ar y Maes Awyr, gan gynnwys camau ariannu yn y dyfodol mewn perthynas ag opsiynau ar gyfer adfer.

## **Rôl Llywodraeth y DU**

Roedd clywed bod pecyn cymorth COVID newydd Llywodraeth y DU ar gyfer meysydd awyr gwerth £100m yn berthnasol i feysydd awyr yn Lloegr yn unig yn destun cryn siom inni. Mae Gweinidogion yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am fanylion ei chynllun cymorth ar gyfer meysydd awyr, ond ni chafwyd ateb, er gwaethaf gofyn yn fynych ers iddo gael ei gyhoeddi gyntaf ym mis Tachwedd.

Mae Trysorlys y DU wedi dweud bod cyllid canlyniadol mewn perthynas â'r cynllun hwn yn cael ei adlewyrchu yn ein Gwarant COVID bresennol, ond ni fydd gennym sicrwydd yn hyn o beth nes inni weld dadansoddiad o'r Warrant fel rhan o broses Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU.

Mae Gweinidogion wedi croesawu penodiad Syr Peter Hendy gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth i gynnal Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb ar ran Llywodraeth y DU, ac maent wedi nodi eu bod yn gobeithio y bydd hyn yn cyfrannu rhywfaint at gynyddu lefel ei chyfrifoldebau ei hun am gysylltedd ledled y DU ac yng Nghymru. Tua diwedd y flwyddyn diwethaf, cyfarfu Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru â Syr Peter i drafod ein pryderon ac fe'i gwnaed yn glir y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi adolygiad lle mae'n arwain at Lywodraeth y DU yn ariannu ei chyfrifoldebau presennol mewn perthynas â Chymru yn ddigonol mewn meysydd fel seilwaith rheilffyrdd a hedfanaeth.

Mae Gweinidogion yn fodlon y bydd Syr Peter yn gwneud gwaith rhagorol wrth adolygu sefyllfa'r rheilffyrdd a hedfanaeth, ond maent wedi nodi ei fod yn cael ei lesteirio gan y ffaith na ofynnwyd iddo gynnwys band eang yn ei gylch gwaith. O ystyried y newidiadau diweddar i batrymau gwaith ac i fywydau pobl, mae'n bwysicach nag erioed bod Llywodraeth y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau a gedwir yn ôl i sicrhau, fan leiaf, fod band eang cyflym iawn ar gael i bob eiddo yng Nghymru.

Er gwaethaf yr uchelgeisiau a nodir yn Strategaeth Hedfanaeth 2050 Llywodraeth y DU, i raddau helaeth mae penderfyniadau polisi Llywodraeth y DU wedi canolbwyntio ar y meysydd awyr masnachol mwy yn Lloegr, felly, yn ôl pob golwg, mae meysydd awyr rhanbarthol fel Caerdydd yn llai pwysig mewn perthynas â pholisi'r DU.

Yn wahanol i rannau eraill o Ewrop, cyn ac yn ystod argyfwng COVID, mae Llywodraeth y DU wedi gwahardd cymorth ariannol ar gyfer diogelwch – gall y baich costau ar feysydd awyr llai fod cymaint â 30% o'u costau gweithredu. Mae Gweinidogion yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i newid ei safbwynt mewn perthynas â'r 'cymorth a ganiateir' ar gyfer costau diogelwch ar gyfer meysydd awyr – a fyddai'n cyfrannu rhywfaint at sicrhau sefyllfa deg, yn enwedig ar gyfer y meysydd awyr hynny sydd ac a fydd yn parhau i wynebu anawsterau o ganlyniad i'r pandemig.

Rydym yn parhau i gael trafodaethau â'r Adran Drafnidiaeth ynglŷn â'r angen am strategaeth ar gyfer y DU wrth ailagor ac adfer y sector hedfanaeth. Hyd yma nid oes strategaeth wedi cael ei chyhoeddi na'i rhannu â ni.

Tua diwedd 2019, lansiodd y Gweinidog ymgynghoriad ar Lwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth newydd i Gymru sy'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer y sector trafnidiaeth cyfan

yng Nghymru yn y dyfodol, sy'n cynnwys ein cefnogaeth barhaus ar gyfer Maes Awyr Caerdydd.

## **Dyfodol y Maes Awyr**


Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda thîm gweithredol CIAL, a byddwn yn gweithio gyda nhw i ailystyried y strategaeth ar gyfer y Maes Awyr yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'i Uwchgynllun i adlewyrchu effaith COVID-19 ar y Maes Awyr a'r newidiadau mae wedi'u gweld o ganlyniad i COVID-19.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod yr anawsterau yr ydym ni, CIAL a'r sector hedfanaeth bellach yn eu hwynebu, ac yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Chadeirydd nesaf y Pwyllgor a'i Aelodau i ailsefydlu'r maes awyr wrth inni adfer o'r pandemig.

Mae Gweinidogion yn falch ein bod bellach yn cynnal profion gorfodol ar draws y DU ar y teithwyr hynny sy'n cyrraedd y DU, ac yn gobeithio y bydd hyn yn helpu'r farchnad a'r diwydiant i adfer. Roedd y cydweithredu hwn rhwng Llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig eraill yn hanfodol i helpu'r economi i adfer ac i ddiogelu'r Deyrnas Unedig gyfan a'i dinasyddion.

I gloi, gwelwn fanteision cryf iawn ar gyfer busnes Maes Awyr Caerdydd yn dilyn y cyhoeddiad diweddar y bydd y cwmni hedfan cost isel Wizz Air yn ymgartrefu yn CIAL ac yn cyflwyno naw llwybr newydd o Gaerdydd. Gallaf gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw gymhellion i'r cwmni hedfan – mae hon yn berthynas fasnachol rhwng y Maes Awyr a Wizz Air, ac felly, mae unrhyw gytundebau rhwng y ddau barti yn rhai masnachol. Mae hyn yn dangos bod gan Wizz Air gryn hyder yn y Maes Awr. Mae hwn yn gyfle newydd cyffrous iawn i CIAL ar adeg pan fydd angen hwb o'r fath yn fawr iawn.

Yn gywir



**Simon Jones**

Cyfarwyddwr

Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Economaidd